**Cofnodion Wedi i gadarnhau Iechyd Cyhoeddus Cymru**
**Cyfarfod Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella**
**25 Tachwedd 2025, 10:00 – 12:50**
**Cynhaliwyd yn Capital Quarter 2 a thrwy Microsoft Teams**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Clare Jenkins | (CJ) | Cadeirydd y Pwyllgor, Is-gadeirydd y Bwrdd a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Nick Elliott | (NE) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol) |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Neil Desmond | (ND) | Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch (ar gyfer eitem 3.6) |
| Sikha de Souza, | (SdS) | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Sgrinio (ar gyfer eitem 3.1) |
| Sophie Fuller | (SF) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Corfforaethol a Chymorth Busnes, Gweithrediaeth y GIG (ar gyfer eitem 9) |
| Danielle Gething | (DG) | Pennaeth Rheoli Risg (ar gyfer eitem 3.3) |
| Robin Howe | (RH) | Microbiolegydd Ymgynghorol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Heintiau (ar gyfer eitem 5) |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (rhan o'r cyfarfod) |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Iechyd a Llesiant Cenedlaethol (rhan o'r cyfarfod) |
| Lizzie Nickerson | (LN) | Meddyg Dynodedig y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol, yn arsylwi |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Zoe Wallace | (ZW) | Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol (ar gyfer eitem 6) |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Pippa Britton | (PB) | Cadeirydd y Bwrdd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Angela Cook | (AC) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Olusola Okhiria | (OO) | Cynrychiolydd Undeb Llafur |
| Catherine Purcell | (CP) | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |

Wedi i gadarnhau

| | | |
|---|---|---|
| Angela Williams | (AW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau a Chyllid |
| *Dechreuodd y cyfarfod am 10:00* | | |

| | |
|---|---|
| **Rhan A** | |
| **QSIC 2025.11.25/1** | **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau** |

Croesawodd y Cadeirydd bawb i sesiwn gyhoeddus cyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.

Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

| | |
|---|---|
| **QSIC 2025.11.25/2** | **Datganiad o Fuddiant** |

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

| | |
|---|---|
| **QSIC 2025.11.25/3** | **Eitemau ar gyfer Sicrwydd** |
| **QSIC 2025.11.25/3.1** | **Rheoli Meddyginiaethau** |

Cyflwynodd MK y diweddariad rheoli meddyginiaethau, gan gadarnhau bod y sefydliad wedi adolygu ei brosesau defnyddio a llywodraethu meddyginiaethau er mwyn sicrhau cydymffurfedd rheoleiddiol.

Amlygwyd y canlynol gan SdS:

- Y bwriadwyd sefydlu Grŵp Rheoli Meddyginiaethau ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru o fis Ionawr ymlaen, a bod cylch gorchwyl wedi'i ddatblygu a'i bod wedi atodi i'w nodi.
- Bod polisi diwygiedig a fwriadwyd i ategu gwaith y Grŵp newydd yn destun ymgynghoriad, a gwahoddwyd sylwadau gan y Pwyllgor.
- Roedd asesiad sylfaenol ac asesiadau risg wedi'u cwblhau, heb unrhyw risgiau sylweddol wedi'u nodi, ac roedd monitro parhaus ar waith.
- Y Cytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) gyda fferylliaeth Caerdydd a'r Fro, gan nodi ymgysylltiad cadarnhaol a chynlluniau i adolygu'r cytundeb lefel gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion y sefydliad.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Holwyd am ddiffiniad 'Meddyginiaethau' a chwmpas yr adolygiad. Eglurodd SdS fod y polisi'n diffinio meddyginiaethau'n gul, gan gwmpasu diferion llygaid ar gyfer sgrinio llygaid diabetig yn unig, anesthetig lleol ar gyfer asesu'r fron, ac adrenalin ar gyfer anaffylacsis, heb gynnwys atchwanegiadau nac eitemau hyrwyddo iechyd. Cadarnhaodd SdS fod yr adolygiad cychwynnol yn cynnwys cynrychiolwyr o bob cwr o'r sefydliad, a bod y cwmpas wedi'i gyfyngu i'r tair meddyginiaeth a nodwyd.
- Ychwanegodd MK fod dyfeisiau meddygol yn cael eu rheoli ar wahân o dan broses lywodraethu wahanol, a oedd yn dod o dan reoliadau'r Grŵp Rheoli Dyfeisiau Meddygol a'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA).
- Gwnaed sylwadau cadarnhaol ar eglurder a chymesuredd y gwaith.

Wedi i gadarnhau

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ar gynnydd y camau a gymerwyd i gryfhau trefniadau llywodraethu ynghylch Rheoli Meddyginiaethau yn y sefydliad.

| QSIC 2025.11.25/3.2 | **Cynllunio ar gyfer y Gaeaf** |
|---|---|

Cyflwynodd MK ddiweddariad ar baratoadau cynllunio ar gyfer y gaeaf/cynllunio tymhorol y sefydliad, gan amlinellu'r canlynol:

- Y gwaith cydlynu parhaus gyda Llywodraeth Cymru a'r Prif Swyddog Meddygol.
- Bod y rhaglen brechu rhag y feirws syncytial anadlol (RSV) wedi'i gwerthuso, gan ddangos gostyngiad sylweddol yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty a chynnydd llai serth yn yr achosion o RSV y tymor hwn.
- Atgyfnerthwyd mesurau rheoli heintiau mewn ymateb i gyfraddau'r ffliw sydd ar gynnydd, gyda nodiadau atgoffa yn cael eu hanfon i ysbytai a chartrefi gofal, a chynhaliwyd gwyliadwriaeth barhaus o glefydau heintus trwy'r Ganolfan Wyliadwriaeth ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy.
- Soniwyd am y gwaith cydweithio â Llywodraeth Cymru ar sbardunau hysbysu a briffiau, a thynnwyd sylw at fesurau ychwanegol gan gynnwys ymgyrchoedd iechyd a llesiant, ymdrechion i frechu staff rhag y ffliw, a chyhoeddi adroddiad llesiant y gaeaf.
- Bod nifer y staff a oedd wedi'u brechu rhag y ffliw wedi gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a bod y sefydliad yn parhau i gymryd rhan weithredol yng ngrŵp gwydnwch system y GIG ar gyfer ymateb cydlynol yn y gaeaf.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Tynnodd CB sylw at y ffaith, ar sail gwersi o'r flwyddyn flaenorol, fod y sefydliad wedi penderfynu gweithredu gwisgo masgiau mewn gwasanaethau ar yr ochr glinigol o ddechrau mis Rhagfyr ymlaen, yn hytrach nag aros am sbardunau rhanbarthol, a hynny er mwyn amddiffyn staff a chleifion yn well.
- Nodwyd y cydweithrediad agos â'r Prif Swyddog Meddygol a'r gwelliant yn nifer y staff a oedd yn cael eu brechu, a phwysleisiwyd pa mor bwysig oedd cynnal momentwm ar ymdrechion brechu. Tynnodd CB sylw at y cyfeiriad cadarnhaol o ran nifer y staff a oedd yn cael eu brechu a pha mro bwysig oedd cymhwyso gwersi a ddysgwyd ar gyfer cynllunio yn y dyfodol.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch gweithredu gweithgareddau cynllunio ar gyfer y gaeaf / cynllunio tymhorol.

| QSIC 2025.11.25/3.3.1 | **Sicrwydd Risg - y Gofrestr Risg Strategol a Chorfforaethol** |
|---|---|

Cyflwynodd DG yr adroddiad Risgiau Strategol, gan ganolbwyntio ar y risgiau sy'n gysylltiedig â Chyflenwi Rhaglenni Sgrinio'r Fron a'r Coluddion. Nododd DG y sgôr risg sefydlog ar gyfer risg strategol 3, a bod y parodrwydd i dderbyn risg yn parhau i fod o fewn lefelau goddefgarwch ar gyfer y risg hon, gydag 1 cynllun gweithredu ychwanegol newydd a oedd wedi'i ychwanegu at y gofrestr, a hynny er mwyn cryfhau llwybrau cyfranogwyr ar gyfer capasiti'r gweithlu a thrawsnewid digidol. Daeth DG â'r cyflwyniad i ben trwy groesawu adborth ar arddull a chynnwys newydd yr adroddiad.

Wedi i gadarnhau

Tynnodd MK sylw at y canlynol:

- Bod cyfarfodydd gyda Byrddau Iechyd ar golonosgopi sgrinio wedi'u cwblhau, a bod adroddiad yn crynhoi'r gwersi a ddysgwyd yn cael ei baratoi. Byddai hyn yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd Arwain fel dull ar y cyd ag Uned Perfformiad a Gwella'r GIG i geisio ymrwymiad a chefnogaeth hirdymor ar gyfer atebion cynaliadwy yn yr hirdymor.
- Bod yr adolygiad o Bron Brawf Cymru yn mynd rhagddo; roedd y cyfweliadau â staff wedi'u cynnal ac roedd y canfyddiadau cynnar yn helpu i nodi gwelliannau o ran ansawdd; byddai'r rhain yn benodol i Bron Brawf Cymru ac yn berthnasol ar draws pob rhaglen sgrinio.
- Cyfeiriwyd at gwblhau Ymarfer Pegasus, sef ymarfer aml-gam ar yr ymateb i bandemigau, a nodwyd adolygiad parhaus o argymhellion yr ymchwiliad i COVID er mwyn llywio ymatebion y sefydliad yn y dyfodol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch cyfrifoldebau cyflogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch llawfeddygon ymgynghorol a radiolegwyr ar gyfer sgrinio, ac a oedd mesurau arbed costau Byrddau Iechyd wedi effeithio ar raglenni sgrinio. Eglurodd MK fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflogi radiolegwyr ar gyfer Bron Brawf Cymru, ond nid llawfeddygon, a oedd wedi'u contractio o Fyrddau Iechyd. Cydnabu MK bryderon ynghylch gwydnwch y trefniadau hyn, yn enwedig yng Ngogledd Cymru, a disgrifiodd sut y cafodd hyn ei uwchgyfeirio i uwch arweinwyr byrddau iechyd er mwyn mynd i'r afael ag oedi mewn clinigau asesu. Esboniodd MK hefyd fod rhai elfennau o'r llwybr sgrinio wedi'u comisiynu gan fyrddau iechyd a bod cyfarfodydd rheoli contractau a phrosesau uwchgyfeirio ar waith i fynd i'r afael â thanweithgarwch.
- Rhoddwyd adborth ar yr adroddiad risg, gan awgrymu cynrychiolaeth weledol gliriach o'r parodrwydd i dderbyn risg, cynnwys dyddiadau archwilio, egluro teitlau adroddiadau, olrhain y gwaith o ddarparu rhaglenni digidol, pryderon bod cynllunio ar gyfer pandemigau yn canolbwyntio'n ormodol ar COVID-19, ac egluro'r broses ar gyfer trosi bylchau sicrwydd yn rheolaethau. Gwnaeth MK a DG sylwadau ar y broses ar gyfer trosi camau gweithredu yn rheolaethau, a chynlluniau i ehangu'r gwaith o gynllunio senarios y tu hwnt i bandemigau, gan gynnwys ystyried bygythiadau cemegol a niwclear.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cymryd **sicrwydd** ynghylch rheoli Risg Strategol o fewn eu cylch gwaith.

| QSIC 2025.11.25/3.3.2 | Y Gofrestr Risg Gorfforaethol |
|---|---|

Cyflwynodd DG yr adroddiad, gan nodi bod y Pwyllgor wedi ystyried yr adroddiad yn flaenorol yn ei gyfarfod ym mis Medi, ac oherwydd yr amseru, byddai diweddariad llafar yn cael ei ddarparu ar y trafodaethau diweddar yng nghyfarfod y Tîm Arwain ar 19 Tachwedd 2025.

Tynnodd DG sylw at y ffaith bod dwy risg newydd wedi'u derbyn, sef:

- Risg 2.0.0.3, ar newid hinsawdd a'r methiant i gyflawni sero net erbyn 2030. Roedd cynlluniau gweithredu mewn perthynas â newid hinsawdd yn cael eu

Wedi i gadarnhau

datblygu ar gyfer 2026–2028, ac anogwyd aelodau'r tîm arwain i ddylanwadu ar gyfarwyddiaethau i leihau allyriadau carbon.
- Risg 2.0.7.6 na fyddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gallu cyflawni dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb. Cytunodd y Tîm Arwain i argymell dull canolog ar gyfer dyrannu adnoddau a gwaith asesu effeithiau i'r Tîm Gweithredol Busnes strategol ei ystyried ymhellach.

Gwnaeth CB sylwadau ar y gwelliannau parhaus i waith rheoli risgiau, gan dynnu sylw at aeddfedrwydd cynyddol a natur ddeinamig y gofrestr, a myfyrio ar ymgysylltiad y Tîm Arwain a'i rôl wrth ysgogi gwelliant busnes a lliniaru risgiau islaw'r lefel strategol.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y Gofrestr Risg Gorfforaethol ddiweddaredig o fewn eu cylch gwaith.

| QSIC 2025.11.25/3.4 | Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Ansawdd Ch2 |
|---|---|

Rhoddodd AC drosolwg o'r Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Ansawdd ar gyfer Chwarter 1, gan dynnu sylw'r Pwyllgor at feysydd penodol i'w hystyried:

<u>Gweithio i Wella (PTR), Ch2</u>
Crynhodd AC yr adran Gweithio i Wella, a oedd yn cynnwys y digwyddiadau, y cwynion a'r
pryderon a adroddwyd ac a weithredwyd yn ystod Chwarter 2:

- Un Digwyddiad a fu'n Adroddadwy'n Genedlaethol a dau rybudd cynnar yn chwarter dau, yr oedd pob un yn gysylltiedig â system Tarian, gyda gwaith parhaus i'w datrys a dim niwed wedi'i nodi.
- Nodwyd dau achos yn ymwneud â'r ddyletswydd gonestrwydd: un yn ymwneud ag adroddiad positif ffug am C. diff a achosodd niwed cymedrol, ac un adolygiad canser ysbeidiol.
- Adroddwyd dau ddigwyddiad Atal a Rheoli Heintiau (IPC) fel digwyddiadau RIDDOR hefyd, gyda gwersi clir wedi'u nodi.
- Y categori â'r nifer uchaf o ddigwyddiadau o hyd oedd methu â dilyn protocol, gan dynnu sylw at yr angen i lynu wrth Weithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs) a'r angen am hyfforddiant parhaus a monitro cydymffurfedd.
- Cynyddodd nifer y digwyddiadau hwyr oherwydd argaeledd staff, ond roedd gwelliannau yn mynd rhagddo, yn enwedig mewn gwasanaethau sgrinio a gwasanaethau llygaid diabetig.
- Cafodd pob digwyddiad ei fonitro'n weithredol, gyda sylw arbennig i'r rhai a allai achosi niwed, ac roedd yr hyn a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau yn ffocws allweddol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:
- Gofynnwyd am eglurhad ar ddiffiniad digwyddiadau hwyr a sut y cânt eu rheoli, lefel y niwed, a oedd y trothwy 30 diwrnod yn ystyrlon ac a oedd digwyddiadau'n cael eu holrhain yn briodol. Ymatebodd CB fod yr holl ddigwyddiadau'n cael eu monitro bob wythnos, a'u bod yn cael eu blaenoriaethu ar sail pa mor ddifrifol ydynt, ac y ceisir estyniadau dilys yn achos digwyddiadau cymhleth. Rhoddodd

Wedi i gadarnhau

CB sicrwydd i'r Pwyllgor fod dysgu yn cael ei flaenoriaethu a bod gwelliannau wedi'u gwneud yn ddiweddar.

- Holwyd am gynnydd hyfforddiant ar ddigwyddiadau, yn benodol a oedd staff newydd yn cael hyfforddiant prydlon. Esboniodd Claire fod gofynion hyfforddi yn cael eu holrhain trwy ESR, gyda gwahanol lefelau ar gyfer rheolwyr a pherchnogion digwyddiadau, a bod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddarparu hyfforddiant hygyrch wedi'i dargedu, er nad oedd hyfforddiant Datix yn orfodol.
- Gofynnwyd am faterion thematig gyda threfniadau gweithredu safonol, fel rheoli fersiynau a hygyrchedd. Cydnabu CB drefniadau llywodraethu da ond nododd risgiau gyda chopïau printiedig a mynediad digidol, yn enwedig mewn unedau symudol. Myfyriodd CB ar y gwaith parhaus a oedd yn mynd rhagddo i fireinio rheolaeth trefniadau gweithredu safonol, a dywedodd y byddai diweddariad penodol yn cael ei ystyried ar gyfer y pwyllgor nesaf.

<u>Profiad Cleifion/Defnyddwyr Gwasanaethau a Rheoli Rhybuddion a Hysbysiadau Diogelwch, Ch2</u>

Tynnodd CB sylw at y canlynol:

- 20 o gwynion datrysiad cynnar, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi'u datrys o fewn 2 ddiwrnod.
- 10 cwyn ffurfiol; y themâu cyffredin a gofnodwyd oedd canlyniadau ymchwiliadau a mynediad.
- Roedd 96 o ganmoliaethau wedi dod i law; y themâu cyffredin a gofnodwyd oedd mynd y tu hwnt i'r lefel o ofal disgwyliedig.
- Roedd y perfformiad hwnnw o ran cydnabod ac ymateb i bryderon yn parhau i fod yn gryf. Canolbwyntiodd y tîm ar ddysgu o gwynion ffurfiol a thueddiadau mewn achosion datrysiad cynnar. Daeth canmoliaeth drwy'r wefan yn bennaf, ac aethpwyd ar drywydd yr holl adborth negyddol.
- Roedd 6 allan o 42 o'r rhybuddion yn berthnasol i Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac roedd ymdrechion ar y gweill i symleiddio'r ffordd o'u dosbarthu a sicrhau bod dysgu yn cael ei gofnodi.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cyfeiriwyd at anghysondeb posibl yn nhabl 1 ynghylch rhybuddion ym maes Diogelu Iechyd Microbioleg. Cytunodd CB i'w hadolygu a rhoi diweddariad i'r Pwyllgor fel rhan o'r cofnodion.

**Cam Gweithredu: CB**

<u>Gwaith y Grŵp Diogelu Corfforaethol, Ch2</u>

Rhoddodd AC ddiweddariad ar waith y Grŵp Diogelu, gan dynnu sylw at y canlynol:

- Tuedd gynyddol mewn pryderon diogelu, yn enwedig yn gysylltiedig ag iechyd meddwl a cham-drin domestig, gan ddefnyddwyr gwasanaethau a staff.
- Nodwyd bod cydymffurfedd o ran hyfforddiant diogelu yn dda iawn, ac roedd hyn i'w briodoli i ymdrechion Donna Newell i gefnogi staff.

Wedi i gadarnhau

- Hysbyswyd y pwyllgor bod gwelliannau a newidiadau i'r polisi o ran y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cyflawni'n llwyddiannus, gan osod y sefydliad mewn sefyllfa fel un o arweinwyr y system yng Nghymru.

Gwaith y Grŵp Corfforaethol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau (IPC), Ch2

Rhoddodd AC ddiweddariad ar waith y grŵp IPC Corfforaethol, gan dynnu sylw at y canlynol:

- 19 o ddigwyddiadau atal a rheoli heintiau (IPC), gan gynnwys dau ddigwyddiad RIDDOR yn ymwneud â dod i gysylltiad â sylweddau peryglus mewn ardaloedd labordy.
- Problemau diogelwch dŵr o fewn unedau sgrinio symudol Bron Brawf Cymru (BTW), a oedd wedi gofyn am gapasiti IPC sylweddol ac wedi arwain at ymateb gan y tîm rheoli digwyddiadau (IMT).
- Nodwyd pryderon parhaus ynghylch safonau glanhau, yn enwedig yn Nhŷ Kimberley, gydag ymweliadau dyddiol ac adolygiad o gontractau glanhau ar y gweill i gyd-fynd â safonau cenedlaethol.
- Bu oedi wrth ailbwrpasu cyfleusterau dadheintio yng Nglan Clwyd, ond rhoddwyd sicrwydd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) y disgwylir cynnydd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Roedd cydymffurfedd o ran hyfforddiant yn parhau i fod yn dda ar y cyfan, gyda ffocws ar wella trefniadau asesu a hyfforddi ar gyfer techneg aseptig di-gyffwrdd (ANTT).
- Roedd y tîm wedi integreiddio archwiliadau IPC i'r system AMAT er mwyn gwella sicrwydd ac ysgogi gwaith gwella.
- Canmolodd CB NL, sef y Nyrs Arweiniol IPC ar gyfer trawsnewid IPC corfforaethol o fewn y Sefydliad.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Nodi'r** safonau perfformiad sy'n cael eu cyflawni a meysydd i'w gwella.
- Cymryd **sicrwydd** bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith i sicrhau gwasanaethau diogel, amserol, effeithiol, teg, effeithlon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

| QSIC 2025.11.25/3.5 | Diweddariad Polisi Corfforaethol Chwe-misol |
|---|---|

Cyflwynodd LB yr adroddiad ynghylch Polisïau Corfforaethol, gan dynnu sylw at y canlynol:

- Wyth polisi sydd wedi dyddio a 24 o bolisïau cyfredol. Mae polisïau sydd wedi dyddio wedi cael eu hasesu o ran risg ac ystyrir eu bod yn rhai risg isel.
- Roedd yr holl bolisïau ond un a oedd wedi dyddio yn cael eu hadolygu a disgwylir iddynt gael eu cyflwyno gerbron cyfarfod mis Chwefror i'w cymeradwyo; yr eithriad oedd Polisi Gwisg Unffurf Cymru Gyfan, a oedd yn aros am ddiweddariad cenedlaethol.
- Mae polisïau sydd wedi dyddio wedi cael eu hasesu o ran risg ac ystyrir eu bod yn rhai risg isel.

Wedi i gadarnhau

- Gwnaed newid i'r polisi diogelu i adlewyrchu'r polisi newydd o ran y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), a gymeradwywyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Holwyd pam roedd rhai polisïau wedi dyddio ar ôl ymdrechion blaenorol i ddal i fyny, ac a oedd system ar waith i atal polisïau rhag dyddio, fel eu hadolygu cyn iddynt ddarfod. Esboniodd LB fod polisïau'n cael eu hadolygu bob tair blynedd, a dim ond yn ddiweddar yr oedd dyddiadau adolygu'r polisïau sydd wedi dyddio erbyn hyn wedi mynd heibio. Cydnabu LB y gall yr amserlen dreigl a'r broses gymeradwyo gymryd sawl mis, a nododd fod y tîm yn gweithio i sicrhau bod y broses adolygu yn dechrau'n gynharach.
- Holwyd am y trefniadau cyfathrebu a'r cymorth sydd ar waith i'r staff y mae'r polisi newydd o ran y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd yn effeithio arnynt. Dywedodd CB fod pecyn cymorth i reolwyr ac e-byst unigol wedi cael eu hanfon allan, a bod cymorth emosiynol ar gael i'r staff yr effeithir arnynt, gyda mewnbwn gan dîm y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol i sicrhau bod y mater yn cael ei drin mewn modd sensitif.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Nodwyd** y diwygiad i'r Polisi Diogelu yn dilyn cymeradwyo'r polisi o ran y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) gan y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol.
- Cymerwyd **sicrwydd** ynghylch y blaenoriaethu a'r cynnydd a wneir i adolygu polisïau, gweithdrefnau, a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

| QSIC 2025.11.25/3.6 | Iechyd a Diogelwch Chwarter 1 2024-25 |
|---|---|

Cyflwynodd ND yr adroddiad, gan nodi bod newidiadau wedi'u gwneud yn dilyn sylwadau o gyfarfod diweddar o'r Tîm Gweithredol Busnes yn gofyn am eglurhad ar gyfraddau cydymffurfio a threfniadau rheoli ar gyfer ystadau sefydlog a symudol. Cytunodd ND i rannu'r adroddiad diweddaredig gyda'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod.
**Cam Gweithredu: ND**

Tynnodd ND sylw at y canlynol:

- Roedd y sefydliad yn cydymffurfio 100% ag asesiadau rheoleiddiol allweddol (sef nwy, asbestos, trydan, dŵr, a risg tân).
- Adroddwyd dau ddigwyddiad RIDDOR ac ymchwiliwyd iddynt o fewn gwasanaethau heintiau; roedd ymweliadau dilynol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'u trefnu ac roedd un wedi'i gwblhau.
- Ychwanegwyd pedair risg newydd, sef: Adleoli ystâd weinyddol Gogledd Cymru, dwy broblem yn ymwneud â dŵr yn fflyd symudol Bron Brawf Cymru (un risg uchel, un risg ganolig), a phroblem gyda larwm tresmaswyr yn Bron Brawf Cymru yn Heol y Gadeirlan.
- Roedd y lliniariadau ar gyfer diogelwch dŵr yn cynnwys gosod hidlwyr dŵr yn y man defnyddio ym mhob uned symudol a sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i oruchwylio camau gweithredu ac adrodd.

Wedi i gadarnhau

- Roedd y tîm yn bwriadu gweithredu system ar gyfer rheoli camau asesu risg mewn amser real, ac roedd yn archwilio opsiynau rheoli'r fflyd ar gyfer y fflyd symudol a cherbydau trydan sydd ar gynnydd.
- Estynnwyd yr arolwg diwylliant iechyd a diogelwch i gynyddu ymgysylltiad staff, gyda'r bwriad y byddai'r canlyniadau'n llywio camau gweithredu yn y dyfodol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Mynegwyd pryderon ynghylch y gyfradd ymateb isel i'r arolwg diwylliant iechyd a diogelwch a chefnogwyd yr angen i ddeall a gwella ymgysylltiad staff ag iechyd a diogelwch. Cydnabu ND fod iechyd a diogelwch yn aml yn cael ei ystyried yn rhwystr yn hytrach na galluogwr, a chytunodd fod ymchwilio'n fanwl i'r rhesymau dros ymgysylltiad isel yn bwysig.
- Gofynnwyd am lefel y risg sy'n gysylltiedig â hyfforddiant dadebru Lefel 2 sydd heb gael ei gwblhau eto, gan geisio sicrwydd ynghylch diogelwch staff. Esboniodd CB, er bod hyfforddiant yn hanfodol ac weithiau'n cael ei ohirio oherwydd amserlennu, fod staff yn parhau i fod yn ymwybodol o ba mor bwysig ydyw, ac roedd y ddarpariaeth ar gyfer gwella mynediad wyneb yn wyneb yn cael ei hystyried gyda'r tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cymryd **sicrwydd** bod mesurau priodol ar waith i fonitro cydymffurfedd ac i fynd i'r afael â meysydd a nodwyd i'w gwella.

| QSIC 2025.11.25/4 | Eitemau i'w cymeradwyo |
|---|---|
| QSIC 2025.11.25/4.1 | Cofnodion a Log Gweithredu |

Gwnaeth y Pwyllgor ystyried cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2025 a'u **cymeradwyo** fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor gau'r camau gweithredu a gwblhawyd ar y log camau gweithredu, a nododd fod un eitem ar y trywydd iawn i gael ei chyflawni erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

| QSIC 2025.11.25/4.2 | Polisïau a Gweithdrefnau i'w cymeradwyo |
|---|---|

Cyflwynodd CB y Polisi Archwilio Clinigol drafft, gan egluro ei bwrpas wrth gefnogi dysgu a gwella ansawdd o fewn y sefydliad, a disgrifiodd y broses lywodraethu a'r asesiadau o effaith a oedd wedi'u cynnwys yn y pecyn.

Cadarnhaodd CB fod y Tîm Arwain wedi cymeradwyo'r polisi a bod gweithdrefn ategol yn cael ei datblygu.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor y Polisi Archwilio Clinigol.

| QSIC 2025.11.25/5 | Archwiliad Dwfn - Yr Is-adran Heintiau |
|---|---|

Cyflwynodd RH yr archwiliad dwfn ar yr is-adran heintiau, gan roi trosolwg o gefndir y gwasanaeth a'i gwmpas ledled Cymru, gan sôn am ei 14 labordy, gofal uniongyrchol i 400 o gleifion ag HIV, a dros 44,000 o ymgynghoriadau bob blwyddyn.

Tynnodd RD sylw at y canlynol:

Wedi i gadarnhau

- Cyflwynodd RH drosolwg o'r is-adran heintiau, gan dynnu sylw at ei 14 labordy, gofal uniongyrchol i 400 o gleifion ag HIV, a dros 44,000 o ymgynghoriadau bob blwyddyn.
- Ymhlith y cyflawniadau allweddol roedd cyflwyno profion moleciwlaidd cyflym mewn labordai poeth ledled Cymru, gan alluogi diagnosio a thrin yn gyflymach, yn enwedig ar gyfer achosion o sepsis, fel y dangosir gan stori claf.
- Disgrifiodd RH y rhaglen gofal iechyd sy'n seiliedig ar werthoedd, gan ganolbwyntio ar wella gofal briwiau, a thynnodd sylw at feithrin cymuned gydweithredol trwy welliannau a safoni gofal briwiau ac addysg.
- Arweiniodd yr is-adran fentrau Llywodraeth Cymru ar gyfer profion pwynt gofal am feirysau a gludir yn y gwaed (BBV), gweithredu profion am HIV a hepatitis C mewn clinigau iechyd rhywiol a charchardai, a chefnogi sgrinio torfol ac atgyfeiriadau cyflym.
- Diagnosis moleciwlaidd o arthritis septig
- Pwysleisiodd RH effaith y gwelliannau hyn ar ofal cleifion, effeithlonrwydd gwasanaethau, ac aliniad ag egwyddorion ansawdd.
- Diolchodd MK i RD am y cyflwyniad a gwnaeth sylwadau ar yr uchelgais i ddatblygu gwasanaethau heintiau yn ganolfan ragoriaeth, a'r dyhead i fod yn arweinydd yn y maes.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Gofynnwyd am y rhaglen dileu hepatitis C, a sut roedd gwasanaethau heintiau yn gweithio gyda phartneriaid system eraill yn genedlaethol i gyflawni nod 2030. Esboniodd RH fod Llywodraeth Cymru wedi cydlynu'r rhaglen BBV, gyda gwasanaethau heintiau yn darparu diagnosteg a chlinigau, a phwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau llwybrau cleifion didrafferth.
- Gwnaed sylwadau ar yr angen am wasanaethau heintus clinigol a diagnostig Cymru gyfan a phwysigrwydd diagnosteg deallusrwydd artiffisial. Cytunodd RH, gan nodi manteision diagnosteg a threfniadau adrodd â chymorth deallusrwydd artiffisial, a'u potensial ar gyfer y dyfodol.
- Holwyd a fyddai'r System Gwybodaeth Labordy (LIMS) newydd yn cefnogi arloesi. Eglurodd RH y byddai LIMS yn cynnal busnes fel arfer, ond na fyddai'n galluogi arloesiadau deallusrwydd artiffisial yn uniongyrchol, a fyddai'n gofyn am ddatrysiadau ar wahân.
- Myfyriodd ar werth cysylltu'r effaith ar gleifion â gwelliannau i wasanaethau, a chanmolodd y cydweithio ar ddatblygiadau ym maes gofal briwiau a'r cyfle cyfartal mewn gofal briwiau, yn enwedig ar gyfer mathau amrywiol o groen, a chefnogodd y gwaith parhaus.

Diolchodd y Pwyllgor i RH am y cyflwyniad cynhwysfawr a manwl a chymerodd **sicrwydd** ynghylch gweithrediadau a datblygiad yr Is-adran Heintiau.

| QSIC 2025.11.25/6 | **Rhaglenni Iechyd y Boblogaeth** |
| --- | --- |

Cyflwynodd JM drosolwg o raglenni iechyd y boblogaeth o fewn y gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant, gan nodi bod 21 o raglenni mawr a 64 o raglenni ategol yn cwmpasu

Wedi i gadarnhau

penderfynyddion ehangach, gwella iechyd, a gofal sylfaenol, gan gynnwys iechyd deintyddol.

Tynnodd JM sylw at y canlynol:

- Bod diogelwch ac ansawdd wedi'u gwreiddio trwy archwiliadau, adolygiadau o achosion, adrodd trwy ddangosfyrddau, dylunio rhaglenni ar sail tystiolaeth, systemau digidol, a dulliau sy'n seiliedig ar werthoedd.
- Roedd pob un o'r arweinwyr wedi cynnal adolygiad o'r gwasanaeth / rhaglenni a oedd wedi arwain at welliannau mewn sawl rhaglen, sydd wedi gwella'r hyn a gynigiwn i ddefnyddwyr gwasanaethau. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys y rhaglen atal diabetes ac ail-lansio gwefan Cymru Iach ar Waith, a chymorth wyneb yn wyneb, a oedd â'r nod o symleiddio prosesau a chanlyniadau gwell, a gwelliannau o ran tlodi plant, rhoi grantiau, a gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, gyda gwaith pellach yn mynd rhagddo o ran marchnata cymdeithasol a rhaglenni ysgolion.
- Disgrifiodd JM strwythurau llywodraethu, gan gynnwys byrddau rhaglenni a grwpiau rhanddeiliaid, ac amlinellodd ddull o wreiddio'r ddyletswydd ansawdd a rheoli risg ar draws y gyfarwyddiaeth.
- Roedd yr ymgysylltiad hwnnw â defnyddwyr wedi gwella cyrhaeddiad y gwasanaethau a'r profiad o'r gwasanaethau, ac wedi nodi'r prif risgiau: sef cam-aliniad ag anghenion y boblogaeth, cyfyngiadau o ran adnoddau, a'r angen am archwiliadau risg ac ansawdd rheolaidd.
- Y camau nesaf, gan gynnwys cwblhau adolygiadau o raglenni, meithrin gwelliant dan arweiniad y sector, datblygu offer asesu ansawdd digidol, a chynyddu meincnodi ac adolygu gan gymheiriaid.
- Ychwanegodd ZW fod y gyfarwyddiaeth hefyd yn cefnogi'r gwaith o wella ansawdd ar draws y system, gan gynnwys iechyd deintyddol y cyhoedd, a thynnodd sylw at y diweddariad ynghylch gwasanaethau deintyddol sydd ar ddod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Holwyd sut roedd y gyfarwyddiaeth yn atal dryswch a dyblygu ar draws rhaglenni, yn enwedig ym maes diabetes, a sut y cynhaliwyd ffocws ar y system gyfan. Esboniodd JM fod cydlynu wedi gwella trwy fforymau, adolygiadau o raglenni, a rolau cliriach, ond cydnabu fod angen gwaith parhaus ar gyfer arweinyddiaeth system ac eglurder naratifau.
- Holwyd sut y cafodd gweithwyr proffesiynol rheng flaen ddarlun cydlynol o flaenoriaethau. Disgrifiodd JM a ZW y defnydd o fframweithiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddylanwadu ar y system; gwaith sylfaenol i fynd i'r afael ag iechyd a gofal cymdeithasol; a chydweithio proffesiynol i alinio blaenoriaethau. Nododd ZW y byddai fforymau sydd ar ddod yn casglu adborth gan arweinwyr clwstwr ac arweinwyr proffesiynol i helpu i lunio a llywio negeseuon sy'n mynd i Lywodraeth Cymru. Aeth ZW ymlaen i dynnu sylw at y risg, er gwaethaf tystiolaeth a chytundeb, fod diffyg cyllid cynaliadwy yn bygwth parhad rhaglenni llwyddiannus fel atal diabetes, a nododd yr her o symud buddsoddiad o wasanaethau acíwt i waith atal.
- Awgrymwyd y gallai archwiliadau dwfn yn y dyfodol ganolbwyntio ar ddulliau cwrs bywyd a gweithio yn lleoliadau'r GIG, a chododd bryder ynghylch bylchau

Wedi i gadarnhau

ariannu ar gyfer atal. Cynigiodd ZW iechyd Cyhyrysgerbydol (MSK) ac iechyd menywod fel enghreifftiau posibl o gwrs bywyd ar gyfer sesiynau yn y dyfodol oherwydd eu perthnasedd ar gyfer oedolion o oedran gweithio a'r agenda eiddilwch/cwympiadau.

- Cydnabuwyd y cysylltiad gwell â'r ddyletswydd ansawdd yng ngwaith y gyfarwyddiaeth. Diolchodd JM i'r tîm am gefnogi hyn.
- Nodwyd optimistiaeth ynghylch y dull newydd dan arweiniad y Prif Swyddog Meddygol, ond rhybuddiwyd bod diffyg cyllid yn parhau i fod yn risg allweddol ar gyfer strategaethau atal, ac awgrymwyd adolygu tarddiad rhaglenni i sicrhau aliniad.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Ystyriwyd** yr ystod o raglenni sy'n cael eu darparu gan y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant a'u trefniadau llywodraethu cysylltiedig i lywio rhaglen waith y pwyllgor yn y dyfodol.
- Cymerodd **sicrwydd** bod y Gyfarwyddiaeth yn gweithio'n weithredol i ymgorffori'r Ddyletswydd Ansawdd

| | |
|---|---|
| **QSIC 2025.11.25/7** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **QSIC 2025.09.29/7.1** | **Archwilio** |

**Nododd** y Pwyllgor y canlynol:

- Adroddiad Archwilio Mewnol ar Gyllid Di-graidd – Gwella Iechyd (Sicrwydd Rhesymol).
- Adroddiad Archwilio Mewnol ar Reoli Polisïau a Gweithdrefnau (Sicrwydd Sylweddol).
- Adroddiad Archwilio Allanol Archwilio Cymru ar Wella Llywodraethu o Safon ac ymateb y rheolwyr, a nododd fod y Sefydliad wedi mynd i'r afael â 19 o'r 23 argymhelliad a ddeilliodd o archwiliad 2022, a bod 4 argymhelliad wedi'u cwblhau'n rhannol.

| | |
|---|---|
| **QSIC 2025.09.29/7.2** | **Cynllun Gwaith y Pwyllgor** |

**Nododd** y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Pwyllgor.

| | |
|---|---|
| **Rhan B** | **Busnes Perfformiad a Gwella'r GIG** |
| **QSIC 2025.09.29/8** | **Datganiad o Fuddiant** |

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

| | |
|---|---|
| **QSIC 2025.09.29/9** | **Adroddiad Cydymffurfedd Llywodraethu Chwarterol Perfformiad a Gwella (P&I) GIG Cymru (Ch1)** |

Cyflwynodd SF ddiweddariad Uned Perfformiad a Gwella'r GIG, gan dynnu sylw at y canlynol:

- Cododd tri digwyddiad yn ystod chwarter 2, a adroddwyd ar Datix. Roedd dau yn ymwneud â materion amgylcheddol ac un yn ymwneud â chyfrinachedd; cafodd y digwyddiad hwn ei reoli ar y cyd â'r tîm llywodraethu gwybodaeth ac nad oedd yn ofynnol rhoi gwybod amdano i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Wedi i gadarnhau

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Tynnodd CB sylw at risg ynghylch y swydd band 6 dros dro sy'n cefnogi trefniadau llywodraethu Datix, gan nodi newidiadau sydd ar ddod i Gweithio i Wella a modiwl risg Datix a'r angen i sicrhau cymorth parhaus, a fyddai'n cael sylw all-lein.
- Gofynnodd MK am ddulliau sicrwydd ar gyfer cynllun gwaith yr Uned Perfformiad a Gwella. Eglurodd PV fod yr Uned yn atebol yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru am ei chynllun gwaith a'i pherfformiad, a bod cylch gwaith y pwyllgor wedi'i gyfyngu i sicrhau nad yw eu gweithgareddau'n creu risg i Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

**Iechyd a Diogelwch**

- **Cymerodd sicrwydd** bod gan Berfformiad a Gwella'r GIG fesurau priodol ar waith i fonitro cydymffurfedd ac i fynd i'r afael â meysydd a nodwyd i'w gwella.

**Cydymffurfedd Adrodd ar Ddigwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol**

- **Nodwyd** nad oes unrhyw ddigwyddiadau adroddadwy i'w hadrodd.

**Cydymffurfedd Cwynion (gan gynnwys PTR os yn berthnasol)**

- **Nodwyd** nad oes unrhyw gwynion wedi dod i law ynghylch Perfformiad a Gwella GIG Cymru ar gyfer y cyfnod hwn i'w hadrodd i'r Pwyllgor.

**Adrodd ar hawliadau (hawliadau gan staff a thrydydd partïon)**

- **Nodwyd** nad oes unrhyw hawliadau wedi dod i law yn ystod y cyfnod hwn a chymerwyd sicrwydd bod Hawliadau o fewn Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn cael eu rheoli'n briodol.

**Cydymffurfedd DATIX**

- **Nodwyd** tri digwyddiad a adroddwyd ar Datix ar gyfer y cyfnod hwn, a **chymerwyd sicrwydd** bod y broses briodol wedi'i dilyn o fewn Perfformiad a Gwella'r GIG i reoli'r digwyddiadau hyn.

**Cydymffurfedd diogelu**

- **Nodwyd** nad oes unrhyw faterion diogelu wedi'u hadrodd ar gyfer y cyfnod hwn i'w hadrodd i'r Pwyllgor.

| | |
|---|---|
| QSIC 2025.09.29/9 | **Camau dod â'r cyfarfod i ben** |
| QSIC 2025.09.29/9.1 | **Cau'r Cyfarfod Cyhoeddus** |
| Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben. | |
| *Daeth y sesiwn agored i ben am 12:55* | |

Wedi i gadarnhau